# Cynnig i agor ysgol newydd o'r enw Copa ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Dogfen Ymgynghori

(Fersiwn i Blant)



WCBC/ER864/10022025


Wrexham County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am bob ysgol yn ein hardal. Rydym ni'n rhan o dîm sy'n gweithio i'r Cyngor i gefnogi'r ysgolion hyn.

# Ein nodau:

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion Cymraeg, ysgolion Saesneg neu ysgolion Ffydd ardderchog.
- Bod ag adeiladau diogel a chryf.
- Gwneud yn siŵr fod arian ar gyfer plant yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn a gwrando ar safbwyntiau pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.



## Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Mae angen cynyddol ar hyn o bryd am gymorth i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'n rhaid i rai disgyblion deithio allan o Wrecsam i fynd i ysgol addas.

## Beth yw ein syniad ni?

Creu ysgol newydd sbon o'r enw Copa.

Byddai ar gyfer disgyblion o oedran ysgol uwchradd fyddai fel arfer wedi gorfod teithio allan o Wrecsam.

Byddai ar gyfer disgyblion niwroamrywiol yng nghyfnod allweddol 3 a 4, sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASA).



## Beth allai newid?

Byddai'r ddarpariaeth newydd sbon yn agor.

Ni fydd angen i ddisgyblion a fyddai'n mynd i'r ddarpariaeth hon adael Bwrdeistref Sirol Wrecsam mwyach.

## Pam rydym yn meddwl bod angen i bethau newid?

Mae angen mwy o leoedd arnom ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn Wrecsam.



## Pam rydym ni'n gofyn am dy farn?

Rydym am ofyn i ti beth yw dy farn am ein syniad.

## Pa mor hir fydd pethau'n cymryd?

Pobl yn dweud eu barn wrthym ni:


**Mawrth 2025 i Mai 2025**

Cytuno ar beth rydym ni'n ei wneud:

**Tachwedd 2025**

Agor yr ysgol i lai o ddisgyblion:

**Ebrill 2026**




## Eisiau gwybod mwy?

Rydym ni wedi gwneud hwn yn fyr ac mewn ffordd y byddi di'n ei deall, gobeithio. Rydym ni wedi anfon dogfen hirach at dy rieni, dy athrawon ac at bobl eraill.


Mae'r dogfennau hirach i'w gweld ar ein gwefan drwy chwilio am 'Ymgynghoriad Ysgolion' ar wrecsam.gov.uk neu drwy sganio'r Cod QR.

# Beth ydi eich barn chi?


Dyweda wrthym ni **os wyt ti'n deall** beth yw ein syniad drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.



Dw i'n deall




Dydw i ddim yn siŵr os ydw i'n deall




Dydw i ddim yn deall


Dyweda wrthym ni **sut wyt ti'n teimlo** am ein syniad drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.



Dw i'n ei hoffi



Dydw i ddim yn gwybod os ydw i'n ei hoffi



Dydw i ddim yn ei hoffi

# Oes yna unrhyw beth arall yr hoffet ti ei ddweud?

Cofia ddweud wrthym ni...

- Oes yna unrhyw beth arall yr hoffet ei weld yn hytrach na'r hyn rydym ni yn ei gynllunio?
- Hoffet ti ddweud unrhyw beth arall?

Anfonwch eich sylwadau atom erbyn **11 Mai 2025**

Ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth y byddi'n ei anfon atom wedi hynny.

## E-bost


Anfonwch eich sylwadau atom drwy e-bostio:

copaconsultation@wrexham.gov.uk

## Ysgrifenna atom ni

Anfona dy sylwadau drwy ysgrifennu atom ni:

Addysg, Adeiladau'r Goron,
31 Stryt Caer,
Wrecsam, LL13 8BG



# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn casglu'r holl atebion ac yn rhannu'r prif sylwadau â phawb.

**Gorffennaf 2025**

Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod er mwyn penderfynu beth i'w wneud.

**Tachwedd 2025**

Byddwn yn rhoi gwybod i bawb beth yw'r penderfyniad.

**Tachwedd 2025**

